

ColegauCymru
CollegesWales

# Datganiad o Flaenoriaethau CTER

## Llunio dyfodol addysg bellach: Darparu Cymru gryfach, wyrddach a thecach

Tachwedd 2023

# Cynnwys

Rhagymadrodd....3
Datganiad o Flaenoriaethau....4
1. Rhoi dysgwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau....5
2. Darparu'r cyllid parhaus i ddiogelu'r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr....6
3. Adnewyddu'r ymwrymiad i addysg a hyfforddiant galwedigaethol....7
4. Datblygu llwybr dysgu a phontio 14 – 19 gwell a newydd i bob dysgwr....8
5. Cyfleoedd dysgu gydol oes a dilyniant i oedolion....9

# Rhagymadrodd

**Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth. Mae'n nodi cyflwyno un o'r diwygiadau mwyaf arwyddocaol i bensaernïaeth ein system addysg ers datganoli. Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i arloesi gydag un awdurdod rheoleiddio, goruchwylio a chydlynu cyffredinol ar gyfer addysg drydyddol.**

Daw ar adeg pan fo rôl addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith i ddyfodol ein gwlad yn bwysicach nag erioed. P'un a yw'n gwella o'r pandemig, yn siapio dyfodol gwaith, yn addasu i gymdeithas sy'n heneiddio, neu'n cyflymu'r newid i Sero Net, mae colegau'n hanfodol i bob her fawr sy'n ein hwynebu. Yn fyr, nid oes llwybr i Gymru gryfach, decach, wyrddach a dwyieithog nad oes angen sector addysg bellach sy'n perfformio'n dda ac yn gydnerth.

Erbyn hyn, mae cyllid cyhoeddus dan bwysau sylweddol, gan ei gwneud yn bwysicach nag erioed ein bod yn glir ynghylch ein blaenoriaethau a'n bod yn dangos uchelgais gwirioneddol i fynd i'r afael â'r heriau hirsefydlog sy'n ein hwynebu.

# Datganiad o Flaenoriaethau

Erbyn diwedd 2023, bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Datganiad o Flaenoriaethau i helpu i lunio gwaith y Comisiwn. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r blaenoriaethau y mae'r sector colegau yn credu y mae'n rhaid eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn.

Gall colegau fod yn sylfaen i gyflawni ein huchelgais ar y cyd i wneud Cymru'n gryfach, yn decach ac yn wyrddach drwy ein cefnogi i gyflawni ein cenadaethau craidd o helpu mwy o ddysgwyr i lwyddo a helpu i dyfu economi gynaliadwy. Colegau yw'r peiriannau ar gyfer symudedd cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol, a gyda buddsoddiad a chefnogaeth barhaus gallant wireddu eu potensial llawn fel sefydliadau angori lleol a rhanbarthol.

Dros y chwarter canrif gyntaf o ddatganoli, mae colegau wedi dangos eu bod yn bartner dibynadwy gyda'r llywodraeth. Mae cyfleoedd drwy'r Comisiwn i dyfu rôl colegau wrth ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed a thrwy ein dwy iaith genedlaethol, i greu diwylliant gwirioneddol o ddysgu gydol oes, ac i gefnogi twf cynaliadwy yn ein heconomïau lleol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn i gyd-fynd â'n huchelgais ac i roi'r adnoddau a'r drefn reoleiddio sydd eu hangen ar golegau i lwyddo. Rhaid rhoi lle i golegau arloesi a'r rhyddid strategol i gyflawni blaenoriaethau lleol a rhanbarthol.

## 1. Rhoi dysgwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau

Rhaid i'r Comisiwn roi dysgwyr wrth galon sector ôl-16 diwygiedig. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn rhoi buddiannau hirdymor dysgwyr yn gyntaf a bod pob math o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr galwedigaethol ac oedolion, yn cael eu hadlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau.

Yn bwysicaf oll, bydd rhoi dysgwyr yn gyntaf o ddifrif yn helpu i ysgogi momentwm tuag at y newidiadau strwythurol hirdymor sy'n ddyledus ers tro ac sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae angen i'r Comisiwn ddangos uchelgais wrth ddiwygio'r system fel bod dysgwyr yn cael dewisiadau gwirioneddol ar bob pwynt pontio a bod gan sefydliadau addysg bellach yr adnoddau a'r cymorth i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar y wlad.

Yn ganolog i genhadaeth y Comisiwn o sefydlu llwybrau dysgu a phontio o ansawdd uchel, mae'n rhaid bod ymrwymiad i adolygu'r cynaliadwyedd a'r hyn a gynigir rhwng 16-19, yn enwedig hyfywedd dosbarthiadau chwech mewn ysgolion bach ac ehangder y dewis y gall dysgwyr ei gael. Mewn gormod o rannau o Gymru mae hyn wedi'i adael yn y blwch 'rhy anodd', ond mae'r agwedd tymor byr hwn wedi bod ar draul dysgwyr yn y pen draw. Bellach mae digon o dystiolaeth o wahanol rannau o Gymru y gellir mynd i'r afael â'r mater hwn, a dylai'r Comisiwn ddisgwyl i awdurdodau lleol ddangos arweiniad lle mae angen newid. Ar adeg o bwysau sylweddol ar arian cyhoeddus, mae'n methu dysgwyr os nad ydym yn mynd i'r afael ag ysgolion gyda chweched dosbarth na allant gynnig y dewis a'r profiad addysgol y dylent eu disgwyl. Dylai'r Comisiwn, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a cholegau, nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â hyn dros y blynyddoedd i ddod. Gyda chyllidebau o dan bwysau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, mae gan y Comisiwn ddyletswydd i weithredu ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol er budd pob dysgwr.

Ar adeg o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus, mae angen i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru ddangos parodrwydd i wneud y newidiadau hirdymor a strwythurol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae hygrededd y Comisiwn yn dibynnu ar allu mynd i'r afael â gwendidau a heriau hirsefydlog y system ôl-16 a rhoi dysgwyr yn gyntaf mewn gwirionedd.

## 2. Darparu’r cyllid parhaus i ddiogelu’r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr

Drwy’r bartneriaeth gref rhwng y sector a phob plaid yn y Senedd, mae consensws gwleidyddol clir bellach ynghylch gwerth buddsoddi mewn addysg bellach a phrentisiaethau. Mae’r sector addysg bellach wedi croesawu trawsnewid a diwygio dros y ddau ddegawd diwethaf. Dro ar ôl tro rydym wedi ymateb i raglen ddiwygio Llywodraeth Cymru ac wedi dangos ein gallu i wneud y penderfyniad anodd er budd hirdymor dysgwyr.

Fodd bynnag, mae perygl gwirioneddol y bydd maint y gostyngiadau cyllid posibl sy’n wynebu’r sector nid yn unig yn datrys y consensws caled hwn ond mewn gwirionedd yn tanseilio’n sylweddol y gallu i gyflawni ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr wrth iddynt wynebu heriau’r dyfodol. Nid oes llwybr at Gymru well nad yw’n dibynnu ar sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith ffyniannus, gwydn a llwyddiannus. Ar adeg pan fo angen mynediad at addysg bellach fwyaf ar ddysgwyr a chyflogwyr, rhaid i’r Comisiwn a Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiad yn y sector. Rhaid i hyn gynnwys ymrwymiad hirdymor i gynnal buddsoddiad yn y rhaglen brentisiaethau, yn enwedig ar adeg pan fo twf economaidd yn parhau’n sefydlog a chyflogwyr angen cymorth i dyfu.

Dylai’r Comisiwn a Llywodraeth Cymru gydnabod y pwysau cynyddol o ran costau ar golegau a gwneud ymrwymiad clir i ddiogelu buddsoddiad yng nghynnig y cwricwlwm craidd a pharhau i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth ehangach i ddysgwyr a phrofiad dysgwyr. I gydnabod her barhaus y pwysau cyflog sy’n wynebu’r sector, rydym yn disgwyl i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu cydraddoldeb cyflog yn llawn ag ysgolion gael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Flaenoriaethau.

Mae effaith addysgol a chymdeithasol y pandemig yn dal yn amlwg trwy lefelau presenoldeb gwael mewn ysgolion, heriau iechyd meddwl sylweddol sy'n wynebu nifer o ddysgwyr, a thystiolaeth o heriau ymddygiadol ehangach dysgwyr sy'n mynd i'r coleg. Mae angen i addysg bellach gael adnoddau priodol i’w galluogi i liniaru effaith y pandemig yn ystod addysg ysgol ac i sicrhau nad yw’r dysgwyr mwyaf agored i niwed dan anfantais ddwywaith. Dylai hyn gynnwys rhannu data llawer gwell ar ddysgwyr sy’n symud ymlaen i addysg bellach, er enghraifft, drwy archwilio ‘Pasbort Dysgwr’, a allai helpu i gefnogi gwaith ar ddarpariaeth llesiant i ddysgwyr yn eu cyfnod pontio.

Ar adeg y chwalfa ariannol yn 2008 fe wnaeth Llywodraeth Cymru, a hynny’n gwbl briodol, ati i weithio i amddiffyn pobl ifanc. Heddiw mae angen yr un raddfa o ymateb ac uchelgais i sicrhau nad ydym yn wynebu cenhedlaeth goll o bobl ifanc o ganlyniad i effaith addysgol y pandemig a’r argyfwng costau byw. Addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yw rheng flaen yr her hon. Rhaid i ddysgwyr heddiw a’r dyfodol beidio ag ysgwyddo baich y toriadau ariannol.

## 3. Adnewyddu’r ymwrymiad i addysg a hyfforddiant galwedigaethol

Rhaid i’r Comisiwn a Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad cryf i werth addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gan gynnwys cynyddu’r cynnig galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn benodol i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol.

Mae’r Adolygiad yn cydnabod, ‘mae llawer yn y byd cymwysterau galwedigaethol sy’n dda’, ond fel sector, credwn fod yn rhaid i’r Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn awr roi’r argymhellion ar waith. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad i ddatblygu Polisi Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) ar fyrder a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth economaidd a diwydiannol ehangach. Rhaid iddo sicrhau bod llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaid, a chymorth i golegau ddatblygu darpariaeth dechnegol a galwedigaethol ar Lefelau 4 a 5 i helpu cyflogwyr lleol a rhanbarthol yn well i dyfu a llwyddo, heb ddibynnu ar drefniadau masnachfraint o addysg uwch.

Yn sail i’r dull newydd hwn o ymdrin â VET, mae’n rhaid i bob dysgwr gael mynediad at gyngor ac arweiniad annibynnol o ansawdd uchel, ac i golegau gael mynediad at bobl ifanc ym Mlynyddoedd 10 ac 11 fel y gallant ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar y pwynt pontio allweddol hwn. Mae gormod o ddysgwyr nad ydynt yn ymwybodol o’r llwybrau galwedigaethol sydd ar gael, gan gynnwys prentisiaethau, ac mae’n rhaid i’r Comisiwn a Llywodraeth Cymru gydweithio i sicrhau bod dysgwyr yn gallu deall y dewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae gwella mynediad at gyngor a chanllawiau annibynnol o ansawdd uchel yn rhywbeth y bu galw amdano dro ar ôl tro dros nifer o flynyddoedd, ac mae hwn yn gyfle i’r Comisiwn a Llywodraeth Cymru fynd i’r afael â hyn yn uniongyrchol.

Rhaid i'r Comisiwn roi datganiad cryf o'r newydd o gefnogaeth i addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mae'n hanfodol bod y Comisiwn yn dangos cefnogaeth i barch cydradd gwirioneddol rhwng gwahanol lwybrau dysgu. Rhaid i hyn gael ei danategu gan ymrwymiad clir i ddarpariaeth alwedigaethol o ansawdd uchel.

Mae’n rhaid i’r Comisiwn roi blaenoriaeth gynnar i sefydlu seilwaith gweithredol i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau’n gyflym i alluogi prentisiaethau a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith i fod yn fwy hyblyg ac ymatebol er budd cyflogwyr a dysgwyr.

## 4. Datblygu llwybr dysgu a phontio 14 – 19 gwell a newydd i bob dysgwr

Er y bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ddarpariaeth ôl-16, ni ddylai ganiatáu i raniad ffug ddyfnhau ag addysg cyn-16. Yn hytrach, dylai'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddatblygu llwybr dysgu a phontio 14-19 newydd. Rhaid i'r llwybr 14-19 gynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11 allu cael mynediad i addysg alwedigaethol yn y coleg, gan gynnwys y cyfle i gyflwyno Prentisiaethau Iau fel bod mwy o ddysgwyr ledled Cymru yn cael y cyfle i elwa ar y rhaglen arloesol hon. Dylai gael ei danategu gan hawl newydd i bob dysgwr oedran ysgol glywed yn uniongyrchol gan golegau am yr opsiwn o astudio mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Fel rhan o'r llwybrau hyn, mae'n hollbwysig ein bod yn rhoi terfyn ar y loteri cod post presennol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed ar y cynnig galwedigaethol sydd ar gael iddynt, gan sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad at gymwysterau galwedigaethol o ansawdd uchel ar lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4.

Yn olaf, dylai'r Comisiwn adolygu ar frys brofiad y dysgwyr hynny sydd â'r cymwysterau isaf neu leiaf. Gwyddom fod llawer gormod o ddysgwyr nad ydynt yn ffynnu nac yn cyflawni eu potensial yn yr ysgol ac mae angen i ni ddiwygio'r hyn rydym yn ei gynnig iddynt ôl-16 fel y gallant feithrin eu hyder a dod o hyd i lwybr sy'n gweithio orau iddynt. Dylai hyn gynnwys y ffordd orau o'u galluogi i gael eu hasesu ar eu sgiliau llythrennedd a rhifedd i'w helpu i gymryd y cam nesaf ar eu taith addysg. Dylai'r Comisiwn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen arbenigol i edrych ar frys ar brofiad y dysgwyr hyn ac i wneud argymhellion ar sut i gael gwared ar y rhwystrau sy'n eu hatal rhag llwyddo.

## 5. Cyfleoedd dysgu gydol oes a dilyniant i oedolion

Dros y degawd diwethaf bu amryw ymrwymiadau i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth oedolion a rhan-amser, gan gynnwys datblygu hawl newydd i ddysgu gydol oes a'r uchelgais i wneud Cymru'n genedl ail gyfle.

Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau hyn bydd angen ymrwymiad polisi cydlynol a hirdymor a gefnogir gan fuddsoddiad cynaliadwy a sicr. Mae pwyntiau mynediad a llwybrau dilyniant hygyrch yn allweddol i roi cyfle i fwy o oedolion lwyddo mewn addysg, gan gynnwys gwella darpariaeth yn y gymuned fel bod y rhai sydd bellaf oddi wrth addysg yn cael y cyfle i ail-ymgysylltu a symud ymlaen.

Mae patrwm presennol y ddarpariaeth addysg oedolion yn dameidiog, tra bod bwriadau'r polisi yn rhy gyfyng a chyfyngedig neu wedi'u datblygu ad hoc mewn ymateb i heriau penodol a thymor byr. Drwy gydweithio mwy ar draws y sector ôl-16 cyfan, credwn fod potensial sylweddol i gynyddu nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn addysg.

Rhaid i'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i ddatblygu polisi hirdymor a chydlynol ar gyfer addysg oedolion. Dylai hyn gynnwys cymorth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), yn ogystal â chydnabod gwerth dysgu ar gyfer iechyd a lles a dysgu anffurfiol fel rhan o lwybr dilyniant tymor hir.

Fel rhan o'r ymrwymiad i ddysgu gydol oes sydd â'r nod o gefnogi twf economaidd, dylai'r Comisiwn geisio rhoi system gynllunio ar waith sy'n rhoi'r annibyniaeth a'r rhyddid i golegau ymateb i anghenion y farchnad lafur leol. Rhaid i golegau gael yr hyblygrwydd sydd ei angen arnynt i ddarparu cymorth ailhyfforddi ac uwchsgilio i fusnesau ac unigolion, gan gynnwys y cwmpas i gynnig mwy o ddarpariaeth dechnegol a galwedigaethol ar Lefelau 4 a 5.

ColegauCymru
CollegesWales

www.colegau.cymru
029 2052 2500
helo@colegaucymru.ac.uk
ColegauCymru